

Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:

- Am ffitrwydd a hyfforddi.
- Am Weithgareddau Antur Awyr Agored. Cewch gyfle i ddatblygu sgiliau mewn ystod eang o wahanol weithgareddau.
- Am Anatomi a Ffisioleg ar gyfer Chwaraeon.
- Am arwain Gweithgareddau Antur Awyr Agored. Byddwch yn dysgu sut i gynllunio, darparu ac adolygu nifer o sesiynau y byddwch yn eu harwain.
- Am nifer fathau o ddewisiadau gyrfya sy'n agored i chi ym maes Gweithgareddau Awyr Agored a sut y medrwch baratoi ar eu cyfer.

Sut fyddai'n dysgu?

Byddwch yn cael eich dysgu gan athro chwaraeon profiadol gydag arbenigedd mewn Gweithgareddau Awyr Agored. Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau dosbarth ac ymarferol. Cewch gyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu fel y byddwch yn gwybod ac yn deall beth fydd yn rhaid i chi ei wneud.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Byddwch yn cynhyrchu gwaith cwrs ac aseiniadau fydd yn cael eu hasesu yn bennaf gan diwtor eich cwrs gyda pheth asesu allanol. Ni fydd arholiadau i'w sefyll ar y cwrs hwn.

Hyfforddiant pellach a syniadau am swyddi.

Ar ôl Blwyddyn 11, gallwch fynd yn eich blaen i gwblhau'r Diploma ar lefel 2 neu symud ymlaen i Ddiploma Cenedlaethol ar lefel 3. Neu mi allwch wneud NVQ neu brentisiaeth Fodern ar lefel 2 neu 3 mewn maes cysylltiol. Ar ôl hyn i gyd, byddwch yn barod am waith mewn rôl addas o dan oruchwyliaeth.

Syniadau am Swyddi.

- Canolfannau addysg/gweithgareddau awyr agored cyhoeddus a phreifat.
- Parciau Antur / Canolfannau Astudiaeth Maes.
- Lluoedd Arfog / Gwasanaethau Brys.
- Parciau Cenedlaethol a Gwledig a chanolfannau hamdden.

Cofiwch!

Bydd y cwrs yma yn cael ei addysgu yn Ysgol Eifionydd.

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Mr. Gwyn Owen**

